Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Iau, 26 Ionawr 2012**

Amser:
**13:00**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Alun Davidson**
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8639
ES.comm@wales.gov.uk

## Agenda

### 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

### 2. Ymchwiliad i'r achos busnes dros un corff amgylcheddol - tystiolaeth lafar (13:00 - 14:00) (Tudalennau 1 - 11)

13:00 - 13:30
Morgan Parry, Cadeirydd, Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Keith Davies, Pennaeth Cynllunio Strategol, Cyngor Cefn Gwlad Cymru
E&S(4)-05-12 papur 1

13:30 - 14:00
Trefor Owen, Cyfarwyddwr, Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Jon Owen Jones, Cadeirydd, Comisiwn Coedwigaeth Cymru
E&S(4)-05-12 papur 2

### 3. Ymchwiliad i'r achos busnes dros un corff amgylcheddol - tystiolaeth lafar (14:00 - 14:45) (Tudalennau 12 - 15)

Nigel Annett, Rheolwr Gyfarwyddwr, Dŵr Cymru
Tony Harrington, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd, Dŵr Cymru
E&S(4)-05-12 papur 3

Kath McNulty, Rheolwr Cenedlaethol Cymru, Cydffederasiwn Diwydiannau Coedwigoedd

Mike Harvey, Cyfarwyddwr, Planhigfeydd Coedwig Maelor Cyf.

Alice MacLeod, Rheolwr Technegol, Planhigfeydd Coedwig Maelor Cyf.

## 4. Ymchwiliad i'r achos busnes dros un corff amgylcheddol - tystiolaeth lafar (14:45 - 15:30) (Tudalennau 16 - 30)

Craig Mitchell, Swyddog Polisi, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Louise Fradd, Cyfarwyddwr Strategol yr Amgylchedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Aled Davies, Pennaeth Gwasanaeth Rheoleiddio (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd), Cyngor Gwynedd

E&S(4)-05-12 papur 4

Aneurin Phillips, Prif Weithredwr, Awdurdod y Parciau Cenedlaethol
Emyr Williams, Cyfarwyddwr Rheoli Tir, Awdurdod y Parciau Cenedlaethol
E&S(4)-05-12 papur 5

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales

**PWYLLGOR AMGYLCHEDD A CHYNALIADWYEDD
CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

**YMCHWILIAD I'R ACHOS BUSNES DROS UN CORFF AMGYLCHEDDOL YNG NGHYMRU**

**CEFNDIR**

Ym mis Medi 2010, cyhoeddwyd "Cymru Fyw" - Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol Llywodraeth Cymru, gydag ymgynghoriad yn canolbwyntio ar ddull newydd o reoli ein tir, dyfroedd a môr. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys adolygu'r gwasanaethau amgylcheddol - ailwampio'r trefniadau sefydliadol er mwyn mabwysiadu ffordd fwy integredig a chynaliadwy o reoli'r amgylchedd. Sefydlwyd yr adolygiad yn wreiddiol oherwydd methiant yng Nghymru, fel ar hyd a lled Ewrop, i fodloni targedau bioamrywiaeth, ond fe'i hehangwyd wedyn i adlewyrchu sawl ffactor pwysig ar gyfer newid:

- Dull integredig newydd o reoli'r amgylchedd naturiol, dull ecosystemau, er mwyn helpu Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid i wneud y gorau o adnoddau Cymru a sicrhau bod asedau naturiol Cymru yn cael eu cynnal a'u gwella. Mae deall y bydd angen i ni fyw o fewn ein terfynau amgylcheddol wrth wraidd hyn.

- Angen sefydlu fframwaith er mwyn helpu Cymru i fod yn fwy gwydn yn y dyfodol yn wyneb her newid yn yr hinsawdd, y pwysau ar gyflenwadau dŵr, colli bioamrywiaeth a diogelwch bwyd ac ynni.

- Gwahaniaethau cynyddol mewn polisïau a dulliau gwahanol o drefnu ac ariannu cyrff amgylcheddol cyhoeddus yn y DU.

- Cyfyngiadau ariannol sy'n golygu bod angen ystyried y trefniadau mwyaf cynaliadwy a hirdymor i sicrhau canlyniadau amgylcheddol gwell a pharhaol, yn ogystal â'r arbedion effeithlonrwydd y gellid eu gwneud trwy un yn hytrach na thri chorff.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

*Gofalu am natur Cymru - ar y tir ac yn y môr • Caring for our natural heritage - on land and in the sea*

Prif Swyddfa/Headquarters
MAES-Y-FFYNNON, PENRHOSGARNEDD, BANGOR LL57 2DW; FFÔN/TEL: 01248 385500; FFACS/FAX: 01248 355782
http://www.ccw.gov.uk

## SAFBWYNT CYNGOR CEFN GWLAD CYMRU

Mae amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru yn adnoddau strategol cenedlaethol. Ein byd natur, tir, dŵr ac aer, yn ogystal â'r bioamrywiaeth sy'n eu cynnal ac yn dibynnu arnynt, yw ein system cynnal bywyd – sy'n sail i bopeth arall sy'n bosibl.

Ers 1992, mae'r Cyngor Cefn Gwlad wedi ymroi i gyflwyno blaenoriaethau amgylcheddol ac wedi llwyddo i warchod a gwella'r amgylchedd a dangos cysylltiad rhwng lles economaidd a chymdeithasol.

Er hynny, rydym yn cydnabod bod y cyd-destun economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a chyfansoddiadol newidiol yn cynnig dadl gref dros fabwysiadu dull integredig o reoli'r amgylchedd, er mwyn cyflwyno canlyniadau amgylcheddol gwell sy'n addas i anghenion Cymru. Bydd y dull mwy integredig hwn yn adlewyrchu cymhlethdodau a chysylltiadau'r systemau amgylcheddol hyn, gwerth ein hadnoddau naturiol i ddatblygiad cymdeithasol ac economaidd a'r pwysau o du cyfyngiadau naturiol a newid yn yr hinsawdd. Mae'r Cyngor Cefn Gwlad, felly, wedi croesawu'r adolygiad o lywodraethu amgylcheddol yng Nghymru – Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol a'r adolygiad o ddewisiadau cyflenwi – gan eu bod yn cynnig cyfle strategol i weddnewid y modd rydym ni'n cynllunio, rheoli a gwerthfawrogi ein hamgylchedd daearol, dŵr croyw a morol yn y Gymru wledig a threfol nawr, ac yn bwysicach fyth, yn y dyfodol.

O gofio pwysigrwydd strategol ein hadnoddau naturiol yng Nghymru, bydd y dull newydd nid yn unig yn helpu i sicrhau ein bod yn gwarchod a gwella'r amgylchedd, ac yn ei ddefnyddio a'i reoli'n effeithiol, ond hefyd ein hadfywiad economaidd yn y dyfodol. Mae hefyd yn golygu y bydd Cymru mewn lle da i weithredu Strategaeth Fioamrywiaeth yr UE hyd 2020 a'r Rhaglen Mapio ar gyfer Ewrop sy'n Effeithlon o ran Adnoddau, elfen allweddol o strategaeth Ewrop 2020 sy'n arwain at economi fwy cynaliadwy a chystadleuol.

## CYLCH GORCHWYL

Bu'r Cyngor Cefn Gwlad yn rhan lawn o'r broses o ddatblygu Achos Busnes Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol a'r Un Corff Amgylcheddol.

O'r herwydd, mae'r Cyngor Cefn Gwlad yn croesawu'r cyfle i gyfrannu at Ymchwiliad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd. Nid ydym yn bwriadu rhoi ymateb manwl i'r costau a'r manteision sy'n gysylltiedig ag uno'r cyrff amgylcheddol statudol presennol, na'r posibilrwydd nad yw'r Achos Busnes wedi rhoi digon o ystyriaeth i'r peryglon posibl sy'n gysylltiedig â chreu Un Corff Amgylcheddol. Cyfrannodd staff y Cyngor Cefn Gwlad yn llawn at y broses o ddatblygu a chyflwyno'r Achos Busnes cyflawn, a chredwn ei fod yn Achos Busnes cadarn yn unol â chanllawiau'r Trysorlys. Er hynny, o gofio pa mor gymhleth yw'r broses rheoli newid ac er gwaetha'r ffaith fod yr Achos Busnes yn nodi atebion i beryglon a nodwyd, mae'n anorfod y bydd angen rheoli materion penodol yn ofalus iawn gan gynnwys:

- TGCh
- Datblygu a drafftio'r ddeddfwriaeth angenrheidiol i weithredu Deddf Cyrff Cyhoeddus 2011 ac amryw o Filiau perthnasol yn rhaglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth; Amgylchedd, Datblygu Cynaliadwy, Cynllunio a Threftadaeth.

- Datblygu prosesau penderfyniadau sy’n sicrhau atebolrwydd a thryloywder, yn enwedig mewn perthynas â gwrthdaro buddiannau posibl rhwng swyddogaethau cynghori a rheoleiddio.

- Cysylltiadau trawsffiniol, datgysylltu oddi wrth Gomisiwn Coedwigaeth Prydain ac Asiantaeth yr Amgylchedd Lloegr a’r berthynas â Llywodraeth San Steffan ar faterion heb eu datganoli.

- Datblygu ac integreiddio Polisi Iaith Gymraeg y corff newydd, gan adeiladu ar gynllun y Cyngor Cefn Gwlad sy’n cael ei gydnabod fel cynllun enghreifftiol gan Fwrdd yr Iaith. Mewn corff newydd sy’n gweithio dros Gymru gyfan, mae’n hollbwysig sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei defnyddio’n naturiol o’r cychwyn cyntaf mewn prosesau cynllunio corfforaethol a phrosesau penderfyniadau.

- Yn benodol, rydym yn croesawu’r ffaith fod yr Achos Busnes yn cydnabod hyd a lled gallu’r Cyngor Cefn Gwlad i ddarparu Gwasanaethau Corfforaethol. Mae’n bwysig i’r corff newydd adeiladu a datblygu’r gallu hwn er mwyn lleihau’r peryglon wrth roi’r Un Corff Amgylcheddol ar waith.

Yn ychwanegol at hyn, bydd angen cryn ofal wrth reoli’r cyfnod pontio sy’n arwain at sefydlu’r Un Corff Amgylcheddol newydd, ac wedi hynny, er mwyn cynnal safonau gwasanaeth i gwsmeriaid, sicrhau bod staff yn cael cymorth a bod rhanddeiliaid yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd.

## YMGYSYLLTU Â RHANDDEILIAID

Ni all y Cyngor Cefn Gwlad ymateb i’r posibilrwydd nad yw’r achos busnes wedi rhoi digon o ystyriaeth i safbwyntiau’r rhanddeiliaid allweddol sy’n cael eu heffeithio gan y cynllun i greu’r Un Corff Amgylcheddol. Byddai’n well i’r rhanddeiliaid unigol eu hunain fynd i’r afael â hyn. Er hynny, mae’r Cyngor Cefn Gwlad wedi ceisio sicrhau bod trafodaethau ynglŷn â Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol a’r Un Corff Amgylcheddol wedi codi yn ystod ein cyfarfodydd cyswllt rheolaidd â’n rhanddeiliaid fel Undeb Amaethwyr Cymru, NFU, Cymdeithas y Tirfeddianwyr, WEL, Parciau Cenedlaethol Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac eraill.

## UN CORFF AMGYLCHEDDOL A FFRAMWAITH YR AMGYLCHEDD NATURIOL – Y CANLYNIADAU

Mae’r Cyngor Cefn Gwlad yn cefnogi egwyddorion Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol. Mae’n cyflwyno dull newydd o reoli a rheoleiddio’r amgylchedd yng Nghymru. Y prif gynnig yw defnyddio dull rheoli a rheoleiddio’r amgylchedd ar lefel yr ecosystem. Mae dull ecosystem yn canolbwyntio ar iechyd yr amgylchedd yn ei gyfanrwydd yn hytrach nag ymdrin ag elfennau unigol ar wahân. Mae’n cwmpasu dealltwriaeth sylfaenol o’r ffaith fod yr amgylchedd yn sail i’n anghenion cymdeithasol ac economaidd, iechyd a lles. Bydd yn golygu pwyso a mesur a gosod blaenoriaethau ar gyfer yr holl ofynion cystadleuol ar ein moroedd, tiroedd ac adnoddau naturiol, a’r defnydd ohonynt sy’n sicrhau amgylchedd iach, gwydn a chynhyrchiol ar gyfer y gymdeithas gyfan, gan gefnogi cyflogaeth a hybu lles. Yn gyffredinol, bydd y dull newydd yn symleiddio a chydgysylltu ein dull o ddiogelu a rheoli ein hadnoddau naturiol er mwyn:

- gwella amrywiaeth a gwydnwch ein hamgylchedd a’i fioamrywiaeth;

- darparu dull symlach a mwy cost-effeithiol o reoleiddio;

- cynnig rhagor o sicrwydd ac eglurder i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau.

Bydd yn cymryd sawl blwyddyn i ddatblygu a sefydlu'r dull newydd, a bydd angen cyflwyno deddfwriaeth hefyd. Bydd yr elfennau allweddol yn cynnwys:

- Gwella ein dealltwriaeth o ecosystemau a'u gwasanaethau a sut rydym yn eu gwerthfawrogi er mwyn llywio penderfynwyr.

- Cynlluniau rheoli adnoddau cenedlaethol a lleol i lywio gweithgareddau rheoli yn y dyfodol a blaenoriaethau ar gyfer meysydd bwyd, gwastraff, dŵr, ynni ac atal llifogydd.

- Integreiddio, rhesymoli a symleiddio systemau rheoleiddio.

- Treialu cynllun rheoli adnoddau ar sail yr ecosystem, i weld sut allwn ni gyfuno'r amrywiaeth o gynlluniau a dynodiadau cyfredol mewn cynlluniau neu brosesau mwy unedig.

- Un Corff Amgylcheddol i ganolbwyntio ar flaenoriaethau Cymru.

Mae manteision posibl y dull newydd i fusnesau a rheolwyr tir yn cynnwys:

- prosesau rheoleiddio mwy effeithiol, effeithlon, symlach ac integredig;
- gwybodaeth gliriach ar ganlyniadau, cyfleoedd a chyfyngiadau amgylcheddol er mwyn helpu i wneud penderfyniadau buddsoddi;
- fframwaith mwy rhagweladwy a chyson er mwyn gwneud penderfyniadau amgylcheddol, trwy leihau unrhyw ansicrwydd mewn systemau cynllunio a systemau rheoleiddio eraill;
- atebion wedi'u cynllunio'n ofodol yn seiliedig ar gyfleoedd amgylcheddol, gallu a chyfyngiadau;
- cymorth i farchnadoedd newydd ym maes gwasanaethau amgylcheddol fel rheoli dŵr a charbon;
- sicrhau bod costau cydymffurfio yn briodol i faint y risg amgylcheddol.

Mae'r manteision posibl i gymunedau yn cynnwys:

- buddsoddiadau cadarnhaol mewn gwelliannau amgylcheddol lleol wedi'u targedu;
- mwy o bwyslais ar anghenion, cyfleoedd a phryderon lleol;
- mwy o gyfraniad lleol i benderfyniadau;
- mynediad gwell i diroedd gwyrdd a'r manteision iechyd cysylltiedig.

Mae'r manteision posibl i'r amgylchedd yn cynnwys:

- mwy o fuddsoddiad yn targedu gwelliannau amgylcheddol;
- camau cadarnhaol i fynd i'r afael â'r ffactorau sy'n sbarduno newid yn yr hinsawdd;
- gallu gwrthsefyll pwysau newid yn yr hinsawdd yn well a lleihau effeithiau hynny;
- dull strategol o hyrwyddo'r gwaith o adfer ac adennill rhywogaethau a chynefinoedd;
- mwy o benderfyniadau'n seiliedig ar y manteision sy'n deillio o'n hamgylchedd.

Mae Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol yn cyflwyno'r cyd-destun ar gyfer ffurf a swyddogaeth Un Corff Amgylcheddol.

Bydd Un Corff Amgylcheddol gydag un nod ac un set o flaenoriaethau ac amcanion yn creu canolbwynt ar gyfer cynlluniau adnoddau naturiol a defnydd cymesur o bwerau rheoleiddio, er mwyn sicrhau bod y datblygiad cywir yn digwydd yn y lle cywir gan ddiogelu'r amgylchedd rhag defnydd amhriodol a difrod wrth hwyluso unrhyw weithgarwch economaidd angenrheidiol. Mae Un Corff Amgylcheddol hefyd yn cynnig cyfle i fod yn fwy effeithiol, trwy gydreoli gweithgareddau sydd ar wahân ar hyn o bryd - fel caffael ac offer - a symud adnoddau i greu canlyniadau ar lawr gwlad.

Mae Achos Busnes yr Un Corff Amgylcheddol wedi'i gysoni i ystyried canlyniadau'r Fframwaith yr Adnoddau Naturiol.

Bydd sefydlu Un Corff Amgylcheddol hefyd yn allweddol o ran helpu i lywio, datblygu a gweithredu cynigion "Cynnal Cymru Fyw: papur gwyrdd ynglŷn â'r dull newydd o reoli adnoddau naturiol yng Nghymru", sy'n cael ei lansio ar 30 Ionawr 2012.

Bydd holl Gyfarwyddiaethau Llywodraeth Cymru a gwasanaethau cyhoeddus y wlad yn gorfod gweithredu'r dull newydd hwn hefyd. Bydd y dull newydd yn methu os byddwn yn gadael i'r Corff Amgylcheddol newydd ei weithredu ar ei ben ei hun. Mae gan y dull newydd oblygiadau o ran newid polisi, gweithdrefnau a deddfwriaeth nid yn unig i'r Bil yr Amgylchedd arfaethedig ond hefyd y Biliau Datblygu Cynaliadwy, Cynllunio a Threftadaeth. Mae'n cyd-fynd â'r egwyddor sylfaenol o roi lle canolog i ddatblygu cynaliadwy fel egwyddor drefniadol ganolog Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus datganoledig Cymru. Mae'n bwysig hefyd dosbarthu'r corff newydd o amgylch Cymru, yn agos i'r cymunedau, busnesau a rhanddeiliaid.

**DIBEN/DIWYLLIANT CYFFREDIN**

Bydd y corff newydd yn etifeddu swyddogaethau amrywiol gan y cyrff cyfredol, a rhaid iddo lywio a gweithredu'n effeithiol y dull newydd a nodir yn y Papur Gwyrdd a rhaglen ddeddfwriaethol ehangach Llywodraeth Cymru. Mae'n golygu mwy nag uno sefydliadau cyfredol yn unig, mae'n golygu creu sefydliad newydd i ddiwallu anghenion Cymru. Felly, mae'n hanfodol bod y ddyletswydd a'r diben cyffredin newydd yn cael eu datblygu a'u hamlinellu o'r cychwyn cyntaf pan sefydlir y corff cysgodol - gyda'r nod o hwyluso diwylliant cyffredin o'r dechrau fel bo'r corff newydd nid yn unig yn sicrhau manteision a chanlyniadau ar gyfer amgylchedd, economi a lles Cymru ar hyn o bryd, ond ei fod hefyd yn addas ar gyfer yr heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu Cymru'r dyfodol. Trwy ymateb i'r heriau a'r cyfleoedd hyn, mae'n bwysig sicrhau mai corff newydd ar gyfer y cyhoedd ydyw - un sy'n ymwneud ag anghenion rhanddeiliaid ac yn ymateb iddynt.

**Cyngor Cefn Gwlad Cymru**
Ionawr 2012

# Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd
**E&S(4)-05-12 papur 2**
**Ymchwiliad i'r achos busnes dros un corff amgylcheddol - Tystiolaeth Gomisiwn Coedwigaeth Cymru**

**Comisiwn Coedwigaeth Cymru**
Llywodraeth Cynulliad Cymru,
Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr,
Aberystwyth, Ceredigion SY23 3UR

**Forestry Commission Wales**
Welsh Assembly Government,
Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr,
Aberystwyth, Ceredigion SY23 3UR

Ffôn/Tel 0300 068 0300
Ffacs/Fax 0300 068 0301
fcwenquiries@forestry.gsi.gov.uk
Cyfarwyddwr Cymru/Director Wales
Trefor Owen FICFor

**CYFLWYNIAD GAN GOMISIWN COEDWIGAETH CYMRU I BWYLLGOR AMGYLCHEDD A CHYNALIADWYEDD CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

## Rhagymadrodd

Mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru (CCC) yn croesawu'r cyfle i gymryd rhan yn ymchwiliad Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd i'r Achos Busnes o blaid y Corff Amgylcheddol Sengl. Mae ein tystiolaeth yn nodi ein rôl ni yn y gwaith o lunio'r Achos Busnes dros y cyfnod rhwng mis Gorffennaf 2010 a mis Tachwedd 2011.

## Y Fframwaith Cyfreithiol Cyfredol

Mae Deddf Goedwigaeth 1967 (fel y'i diwygiwyd) a Deddf Goedwigaeth 1979 yn nodi'r prif fframwaith deddfwriaethol y mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn gweithredu oddi mewn iddo. Maent hefyd yn pennu dyletswyddau a phwerau'r Comisiynwyr Coedwigaeth.

Mae Deddf Goedwigaeth 1967 yn rhoi pwerau i'r Comisiynwyr i reoli'r ystâd goedwigoedd genedlaethol ym mhob gwlad, i waredu'r pren sy'n cael ei gynhyrchu ar yr ystâd, i gaffael a gwaredu tir sy'n cael ei ddarparu iddynt gan Weinidogion Cymru, yr

Alban neu Loegr, i ddarparu cymorth a chyngor i berchenogion coetiroedd, ac i ymgymryd ag ymchwil coedwigaeth, yn ogystal â rhai swyddogaethau eraill fel darparu ystadegau coedwigaeth.

O dan Ddeddf Iechyd Planhigion 1967, y Comisiynwyr yw'r awdurdod cymwys o ran amddiffyn coed a phren mewn coedwigoedd rhag ymosodiadau gan blâu a chlefydau.

Mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn cael ei ystyried yn gorff sy'n perthyn i'r Goron. Mae nifer o resymau am hyn, yn cynnwys:

- ei fod yn cyflawni swyddogaethau llywodraeth;
- mae'n gyfrifol am gynghori Gweinidogion ar faterion polisi coedwigaeth;
- mae ganddo bwerau i lunio offerynnau statudol (e.e. mewn perthynas â thorri coed).

Mae'r Comisiwn hefyd yn cael ei ystyried yn adran o'r llywodraeth, er ei bod yn adran Anweinidogol o'r llywodraeth.

Ers datganoli, bu'n ofynnol i'r Comisiynwyr arfer eu swyddogaethau ar wahân yng Nghymru, Lloegr a'r Alban ac maent yn atebol, ac yn adrodd ar wahân i Lywodraeth Cymru, yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a Gweinidogion yr Alban.

Dan adran 2(3) o Ddeddf Goedwigaeth 1967, mae'r Comisiynwyr wedi dirprwyo cyfran sylweddol o'u cyfrifoldebau i'r Pwyllgorau Cenedlaethol ym mhob gwlad ac yma y cyflawnir y gwaith sydd wedi'i ddatganoli. Mae'r Pwyllgorau Cenedlaethol yn cynnwys aelodau anweithredol a gweithredol ac maent yn goruchwylio gwaith pob gwlad, gan wneud penderfyniadau ynglŷn â strategaethau a pholisïau coedwigaeth.

**Ymwneud Comisiwn Coedwigaeth Cymru â Llunio Achos Busnes i'r Corff Amgylcheddol Sengl**

Edrychodd yr adolygiad Cam 1 ar 6 opsiwn rhwng mis Gorffennaf 2010 a mis Ionawr 2011. Gwnaed hyn yn bennaf ar ffurf gwaith desg. Roedd Cyfarwyddwr y Comisiwn yng Nghymru yn aelod o Fwrdd y Rhaglen.

Wedyn awdurdododd y Gweinidogion waith pellach i gael ei wneud ar yr opsiwn o sefydlu corff amgylcheddol sengl, a fyddai'n fras yn cwmpasu swyddogaethau Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth Amgylchedd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru. Daeth y gwaith hwn i ben ym mis Tachwedd 2011. Roedd Cyfarwyddwr y Comisiwn yng Nghymru yn aelod o Fwrdd Rhaglen Cam 2. Cynrychiolwyd buddiannau coedwigaeth ar Grŵp Llywio'r Rhaglen gan ddau Gomisiynydd Coedwigaeth anweithredol. Mae Cadeirydd Pwyllgor Cenedlaethol y Comisiwn yng Nghymru yn aelod o Banel Cyfeirio'r Gweinidog ynghylch y Corff Amgylcheddol Sengl/Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol.

Darparodd Comisiwn Coedwigaeth Cymru adnoddau staff arbenigol hefyd i ddarparu data/gwybodaeth amserol a chynhwysfawr i weithrediaeth y Rhaglen a'r holl ffrydiau gwaith.

Hwylusodd Comisiwn Coedwigaeth Cymru nifer o ddigwyddiadau i randdeiliaid er mwyn cysylltu â'r rhai sydd â buddiannau ym maes coedwigaeth, fel rhan o broses yr achos busnes.

Nodweddwyd cyfraniad Comisiwn Coedwigaeth Cymru i broses yr achos busnes gan fewnbwn technegol arbenigol a herio adeiladol, yn enwedig o ran y risgiau posibl o safbwynt gwireddu canlyniadau coedwigaeth effeithlon ac effeithiol yng Nghymru. Roedd yr achos busnes yn cydnabod nifer sylweddol o'r risgiau hyn yn y fersiwn terfynol a gyflwynwyd i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy ym mis Tachwedd 2011. Gofynnodd Cyfarwyddwr y Comisiwn yng Nghymru am i'r risgiau ychwanegol isod gael eu cyfleu i'r Gweinidog a'u cofnodi yng Nghofnodion cyfarfod olaf Bwrdd y Rhaglen ar 18fed Tachwedd 2011.

- Pryder ynglŷn â'r rhagdybiaeth y bydd y Comisiwn Coedwigaeth, ac Asiantaeth yr Amgylchedd o bosibl, yn parhau i ddarparu gwasanaethau TG ar y costau cyfredol i Gorff Amgylcheddol Sengl.

- Pryder ynglŷn â'r rhagdybiaeth y bydd Cymru'n parhau i elwa o ymchwil coedwigaeth wedi'i ariannu gan Defra, heb unrhyw gost iddi, yn y dyfodol.

- Pryder ynglŷn â'r risgiau a'r ddibyniaeth ychwanegol yn deillio o'r ffrwd waith TG, nad ydynt wedi cael eu costio eto na'u cynnwys yn yr achos busnes.

- Pryder nad yw'r achos busnes yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth cost gogyfer â'r risg y caiff y Comisiwn Coedwigaeth ei chwalu o ganlyniad i greu'r Corff Amgylcheddol Sengl.

- Pryder na fydd gan Comisiwn Coedwigaeth Prydain gapasiti digonol, yn arbennig ym maes TGCh, i alluogi'r trawsnewid i fynd rhagddo o fewn yr amserlen sy'n cael ei hawgrymu.

Codwyd rhai o'r risgiau hyn gan Gadeirydd y Comisiwn Coedwigaeth, Cadeirydd Pwyllgor Cenedlaethol Comisiwn Coedwigaeth Cymru a Chyfarwyddwr Cyffredinol y Comisiwn Coedwigaeth.

Ar sail yr Achos Busnes ac yn sgil cyfleu'r risgiau ychwanegol uchod, mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn fodlon fod gan y Gweinidog gyngor llawn a chynhwysfawr ynglŷn â buddiannau coedwigaeth Llywodraeth Cymru, fel sail i'w benderfyniad.

**Y Corff Amgylcheddol Sengl – Gweithredu**

Yn union ar ôl penderfyniad y Gweinidog i fwrw ymlaen i sefydlu Corff Amgylcheddol Sengl ar 29ain Tachwedd 2011, cyhoeddodd Cyfarwyddwr y Comisiwn yng Nghymru nodyn i'r holl staff yn cadarnhau fod yr amser trafod wedi dod i ben, fod cyfleoedd newydd cyffrous o'n blaen a bod angen ymrwymiad pendant i wneud i'r newidiadau ddigwydd yn effeithiol. Gweler Atodiad 1 am y fersiwn llawn o nodyn y Cyfarwyddwr.

Mae Cyfarwyddwr Comisiwn Coedwigaeth Cymru hefyd wedi cysylltu â chynrychiolwyr o'r sector busnesau coedwigaeth ers y penderfyniad i roi tawelwch meddwl ac arweiniad iddynt er mwyn cynnal hyder busnesau ac ystyried cyfleoedd newydd.

Mae'r Comisiwn yng Nghymru wedi darparu uwch staff i Raglen Gweithredu Corff Amgylcheddol Sengl Llywodraeth Cymru ers hynny i arwain rhai o'r prosiectau, ynghyd â staff technegol ychwanegol i ddarparu mewnbwn arbenigol. Bu rhaid gwneud addasiadau eraill i sicrhau parhad yn y busnes. Mae Cyfarwyddwr y Comisiwn yng Nghymru yn aelod o Fwrdd Rhaglen Llywodraethu a Chorff Amgylcheddol Sengl o dan Gomisiwn Coedwigaeth Prydain a fydd yn ymdrin â throsglwyddo gwasanaethau a rennir o'r Comisiwn Coedwigaeth i'r corff newydd yng Nghymru. Bydd y Rhaglen hon yn gweithio'n agos gyda Rhaglen Llywodraeth Cymru i Weithredu'r Corff Amgylcheddol Sengl.

Trefor Owen
Cyfarwyddwr, Comisiwn Coedwigaeth Cymru
13eg Ionawr 2012

**Atodiad1**

**Neges i holl staff Comisiwn Coedwigaeth Cymru gan Trefor Owen – 29 Tachwedd 2011.**

**Corff Amgylcheddol Sengl – Cyhoeddiad gan y Gweinidog**

Heddiw, mae'r Gweinidog dros yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, John Griffiths AC, wedi cyhoeddi ei benderfyniad i greu corff amgylcheddol sengl newydd i Gymru.

Bydd Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn rhan o'r corff newydd hwn, ynghyd ag Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru. Mae hyn yn golygu y bydd coedwigaeth yng Nghymru yn trosglwyddo o'r Comisiwn Coedwigaeth i'r corff Cymreig newydd a bydd y tri chorff amgylcheddol yng Nghymru yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau fod adnoddau naturiol Cymru yn cael eu rheoli'n gynaliadwy, yn awr ac i'r dyfodol.

Mae hyn yn cynrychioli cyfle gwirioneddol a chyffrous inni i gyfrannu'n harbenigedd, ein meddylfryd 'rydyn ni'n gallu' a'n hagwedd gadarnhaol i'r sefydliad newydd. Bydd ein craffter masnachol a'n sgiliau a'n profiad rheoli tir yn dyngedfennol i lwyddiant y dyfodol, yn sicrhau gwell canlyniadau i bobl a busnesau Cymru a'r amgylchedd wrth inni barhau i ddatblygu polisi coedwigaeth Llywodraeth Cymru.

Ar ôl cyfnod datblygu hir, pan fu'r tri chorff a Llywodraeth Cymru yn paratoi cynllun busnes manwl a chadarn, mae'r trafod drosodd bellach a gallwn edrych tua'r dyfodol, gan ymrwymo'n llwyr i wneud i'r newid hwn ddigwydd yn effeithiol.

Bydd yr Achos Busnes a'r Crynodeb Gweithredol ar gael ar-lein yn ddiweddarach heddiw ar www.wales.gov.uk/SEB. Cynhelir ymgynghoriad cyhoeddus ddechrau'r flwyddyn nesaf i edrych ar swyddogaethau a threfn lywodraethu'r corff newydd, yna ceir ymgynghoriad pellach ynglŷn â'i ddyletswyddau a'i bwerau cyfreithiol, ond mae'r penderfyniad wedi cael ei wneud i fwrw ymlaen i greu'r corff newydd a bydd y trawsnewid yn dechrau nawr.

Bydd hwn yn gyfnod heriol inni ond rydym yn ymrwymo i wneud i hyn weithio a byddwn yn chwarae rhan lawn yn ystod y trawsnewid. Mae Tîm Rhaglen y Corff Amgylcheddol Sengl yn ystyried datganiadau o ddiddordeb mewn bod yn rhan o'r gwaith hwn a'r nod yw cael timau prosiect yn eu lle cyn y Nadolig.

Byddaf yn galw fy uwch dîm ynghyd yn fuan iawn a byddaf hefyd yn trefnu i weld pawb o'r staff drwy gyfres o sesiynau briffio. Gobeithiaf weld pob un ohonoch dros y dyddiau nesaf. Caiff manylion y lleoliadau, y diwrnodau a'r amserau eu cyhoeddi'n fuan.

Unwaith eto, diolch ichi am eich hamynedd, eich gwaith caled di-baid a'ch ymroddiad i gyflawni. Mae'r rhinweddau hyn yn rhan annatod o bwy ydym a beth yr ydym yn ei wneud a byddant yn parhau i gael eu gwerthfawrogi.

**Trefor Owen**
**Cyfarwyddwr, Cymru**

# Eitem 3

Dŵr Cymru
Welsh Water

Pentwyn Road
Nelson
Mid Glamorgan
Treharris CF46 6LY

Tel: +44 (0)1443 452300
Fax: +44 (0)1443 452323
Web site: www.dwrcymru.com

Heol Pentwyn
Nelson
Morgannwg Ganol
Treharris CF46 6LY

Ffôn: +44 (0)1443 452300
Ffacs: +44 (0)1443 452323
Safle gwe: www.dwrcymru.com

Catherine Hunt
Dirprwy Glerc
Gwasanaeth y Pwyllgorau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

12 Ionawr 2012

Annwyl Catherine

**Un Corff Amgylcheddol ar gyfer Cymru**

Mae'n bleser gennyf ddarparu crynodeb byr ar eich cyfer o'n barn ni am gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer Un Corff Amgylcheddol ("SEB") ar gyfer Cymru cyn y drafodaeth banel yng nghyfafod Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 26 Ionawr.

Hoffwn ddechrau trwy gadarnhau ein bod o blaid sefydlu Un Corff Amgylcheddol. Fodd bynnag, mae rhai rhannau o'r cynnig yn peri pryder i ni. Rwyf am amlinellu'r pryderon hynny yn y llythyr hwn a byddaf yn barod iawn i esbonio'n llawnach yn y drafodaeth banel cyn diwedd y mis.

Dŵr Cymru yw'r cwmni dŵr a charthffosiaeth rheoleiddiedig sy'n gwasanaethu'r rhan fwyaf o Gymru (a rhai ardaloedd dros y ffin yn Lloegr). Rydym yn darparu gwasanaeth cyhoeddus hanfodol i ryw 1.2 miliwn o gartrefi ac mae gennym dros 100,000 o gwsmeriaid busnes. Ar ran ein cwsmeriaid presennol a'r cenedlaethau sydd i ddod, rydym yn gofalu am rwydwaith mawr iawn o asedau hirhoedlog y byddai'n costio £25 biliwn (neu tua £20,000 i bob cwsmer) i osod rhai newydd yn eu lle.

Mae gennym gyfrifoldebau sylweddol i'r amgylchedd ac mae Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ("AAC") yn rheoleiddio ein gwaith yn tynnu dŵr mewn 190 o fannau a'n 3,700 o ollyngiadau dŵr gwastraff wedi'i drin. Mae hefyd, yn fwy cyffredinol, yn pennu'r safonau

glas
Glas Cymru Cyfyngedig

Welsh Water is owned by Glas Cymru - a 'not-for-profit' company
Mae Dŵr Cymru yn eiddo i Glas Cymru - cwmni 'nid-er-elw'

We welcome correspondence in Welsh and English
Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg

Dŵr Cymru Cyf, a limited company registered in Wales no. 2366777. Registered office: Pentwyn Road, Nelson, Treharris, Mid Glamorgan CF46 6LY

Dŵr Cymru Cyf, cwmni cyfyngedig wedi'i gofrestru yng Nghymru rhif 2366777. Swyddfa gofrestredig: Heol Pentwyn, Nelson, Treharris, Morgannwg Ganol CF46 6LY

y mae'n rhaid i ni eu cyrraedd er mwyn gwarchod ein hamgylchedd. Mae AAC yn mesur ein perfformiad bob blwyddyn ac yn adrodd arno. Mae'n cymharu ein perfformiad ni â pherfformiad y naw cwmni dŵr a charthffosiaeth rheoleiddiedig arall; mae'r meincnodi hwn yn bwysig iawn i Ddŵr Cymru gan mai'n huchelgais yw bod yn gwmni dŵr gorau'r sector.

Ers 2001, bu Dŵr Cymru'n eiddo i Glas Cymru, sy'n gwmni "nid er elw". Dyma'r unig gwmni dŵr a charthffosiaeth rheoleiddiedig sydd wedi gostwng ei gostau gweithredu mewn termau real yn y 10 mlynedd hynny; yn ogystal, gennym ni mae statws credyd gorau'r sector sy'n golygu ein bod yn gallu ariannu ein rhaglen fuddsoddi flynyddol, gwerth £250m, mewn modd effeithiol.

O ganlyniad i'r arbedion cost hyn, bydd bil cyfartalog y cartref am ddŵr a charthffosiaeth 6% yn is mewn termau real yn 2015 o'i gymharu â 2000 (eleni, mae ein bil dŵr 4% yn is na'r cyfartaledd o'i gymharu â 21% yn uwch na'r cyfartaledd cyn i Glas Cymru gymryd drosodd; mae rhaglenni buddsoddi mawr i wneud gwelliannau amgylcheddol, yn cynnwys llwyddo i gael un rhan o dair o draethau Baner Las Prydain, yn golygu bod ein bil carthffosiaeth yn dal yn uwch na'r cyfartaledd). Ar hyn o bryd, rydym yn cynorthwyo tua 40,000 o gartrefi sydd ar incwm isel, trwy dariffau cymdeithasol ac mewn ffyrdd eraill.

Eleni, byddwn yn talu tua £15 miliwn (£9 miliwn net) i AAC am ein trwyddedau tynnu dŵr a'n caniatadau gollwng. Mae hyn yn golygu mai ni yw "cwsmer" unigol mwyaf AAC (er gwybodaeth, mae'r Arolygiaeth Dŵr Yfed ac Ofwat, ein rheoleiddiwr economaidd, yn costio tua £1 milwin yr un i ni bob blwyddyn).

Er nad yw'n gwneud cymaint o waith rheoleiddio "ymarferol", rydym mewn cysylltiad rheolaidd â Chyngor Cefn Gwlad Cymru ("CCGC"). Mae cyfran fawr o Gymru wedi'i dynodi i gydnabod ei phwysigrwydd o safbwynt cadwraeth. Mae hyn yn cynnwys y prif afonydd lle mae gennym gronfeydd rheoli fel y gallwn dynnu dŵr yn is i lawr yr afon ar gyfer y cyflenwad dŵr cyhoeddus.

Fel y soniais ar ddechrau'r llythyr, byddwn yn cefnogi cynnig Llywodraeth Cymru i uno Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru oherwydd, os gwneir hyn yn effeithiol, bydd yn golygu bod gan Gymru gorff rheoleiddio effeithlon a chost-effeithiol a fydd yn siarad ag un llais ac yn ein helpu ni ac eraill i gyflawni mwy dros Gymru. Gellir arbed cryn dipyn o arian trwy synergedd a pheidio â dyblygu gwaith a

bydd hynny, yn ei dro, yn lleihau costau rheoleiddio ar gyfer diwydiant yng Nghymru. Byddem yn disgwyl i'r arbedion hyn gael eu hadlewyrchu mewn prisiau is.

Hoffem weld yr Un Corff Amgylcheddol newydd yn cael ei sefydlu'n ddi-oed. Yn ôl ein profiad ni o ad-drefnu mawr (ac, yn 2010, er enghraifft, fe wnaethom ni uno tri sefydliad gwahanol gan drosglwyddo 1,800 o staff o dan reoliadau TUPE), mae'n well gwneud y newidiadau heb oedi er mwyn lleihau'r ansicrwydd a sicrhau bod pobl yn gallu parhau â'r gwaith a pharhau i wella. Yn ein profiad ni, byddai cyfnod pontio hir yn gostus i bawb, yn cynnwys Dŵr Cymru a'r cyrff eraill y mae AAC yn eu rheoleiddio.

Mae'n hollbwysig cael arweiniad addas ac fe hoffem weld penodi rhywun sydd â'r profiad a'r statws priodol yn Gadeirydd y Corff newydd er mwyn llywio'r broses uno, sicrhau'r arbedion a chyflwyno gweledigaeth ar gyfer y corff newydd y bydd y staff (a rhanddeiliaid) yn uniaethu â hi, yn ei chefnogi ac yn cael ei hysbrydoli ganddi. Mae'r Bwrdd a fydd yn gefn i'r Cadeirydd a'r tîm gweithredol yr un mor bwysig a hoffem weld cyfuniad da o brofiad ac arbenigedd ar y bwrdd, yn cynnwys pobl o'r diwydiant dŵr a sectorau eraill yn economi Cymru.

Wrth gwrs, mater i'r Cadeirydd a'r Bwrdd fydd cyflwyno'u gweledigaeth ar gyfer y Corff newydd. O'n safbwynt ni, fe hoffem weld yr un faint o bwysau'n cael ei roi ar warchod yr amgylchedd a hybu ffyniant economaidd a chymdeithasol Cymru - mewn geiriau eraill "datblygu cynaliadwy". Gan fod yr economi mewn sefyllfa mor ddrwg a "rhaglen galedi" Llywodraeth San Steffan heb ddechrau brathu o ddifrif, mae'n rhaid i ni sicrhau bod Cymru'n lle da ar gyfer busnes ac ymateb i'r pryder gwirioneddol bod rheoliadau amgylcheddol (a pholisi cynllunio) yng Nghymru yn "ddrwg i fusnes ac yn ddrwg i swyddi". Mae'n rhaid i'r Un Corff Amgylcheddol fod yn gorff sy'n galluogi - yn gorff a fydd yn cefnogi datblygiad economaidd yn ogystal â gwarchod yr amgylchedd.

Yn yr un modd, hoffem weld y Corff newydd yn ymdrechu i fod yn gorff hyderus, ystwyth a hawdd ymwneud ag ef. Hoffem ei weld yn anelu at gael "canlyniadau da" wedi'u seilio ar dystiolaeth gref, yn hytrach nag yn gwneud dim ond "cadw at y rheolau". Hoffem ei weld yn gwneud yn well na chyrff cyfatebol mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig o ran canlyniadau amgylcheddol a ffyniant economaidd a chymdeithasol. Mae'n hanfodol sicrhau bod yr Un Corff Amgylcheddol yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru a dylid caniatáu i'r Corff gyflwyno gweledigaeth hirdymor ar gyfer rheoleiddio diwydiant yng Nghymru o safbwynt amgylcheddol. Byddai hynny yn ei dro yn caniatáu i ddiwydiant gynllunio'n hyderus ar gyfer y tymor hir.

Dyna, yn ein barn ni, yw manteision tebygol (a sylweddol) sefydlu Un Corff Amgylcheddol. Mae gennym ddau brif bryder.

Yn gyntaf, nid wyf wedi sôn am Gomisiwn Coedwigaeth Cymru ("CCC"). Er nad ydym wedi ystyried yr achos yn fanwl, ar yr olwg gyntaf, nid ydym wedi'n hargyhoeddi y byddai cynnwys CCC yn yr Un Corff Amgylcheddol mor llesol ag y byddai uno AAC a CCGC. Y rheswm am hyn yw bod y cyfle ar gyfer synergedd yn fwy cyfyngedig ac hefyd, ac efallai'n bwysicach, byddai cynnwys CCC yn gwneud y gwaith o sefydlu'r Corff newydd yn fwy cymhleth. Byddai hyn yn arafu ac yn cyfyngu ar y manteision a ddôi'n weddol hawdd o uno dim ond AAC a CCGC lle ceir y gorgyffwrdd mwyaf.

Yn ail, rydyn yn wyliadwrus o reoleiddio "un-ar-un" a bydd yn bwysig sicrhau bod gennym "gae chwarae gwastad" o hyd fel bod modd sicrhau tegwch a chysondeb yn y safonau wrth gymharu ein perfformiad ni a chyrff cyfatebol mewn mannau eraill. Byddem yn bryderus hefyd pe bai'r penderfyniad i sefydllu'r Un Corff Amgylcheddol yn cael ei gymryd fel cyfle i wneud gwaith rheoleiddio amgylcheddol mewn ffordd fwy afrosgo a chostus nag a wneir yn Lloegr neu pe bai dyletswyddau ar gyfer Cymru yn unig yn cael eu hychwanegu at y dyletswyddau a geir ar hyn o bryd yng Nghymru a Lloegr. Yn wir, hoffem weld yr Un Corff Amgylcheddol yn adolygu'r ffordd y mae pethau'n cael eu gwneud ar hyn o bryd, gyda'r nod o symleiddio gwaith rheoleiddio amgylcheddol lle bo modd.

Wrth gwrs, byddaf yn barod iawn i ehangu ar unrhyw un o'r pwyntiau hyn pan ymunaf â'r drafodaeth banel ar 26 Ionawr.

Yn gywir

Nigel

Nigel Annett
Rheolwr Gyfarwyddwr

**Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd**
**E&S(4)-05-12 papur 4**
**Ymchwiliad i'r achos busnes dros un corff amgylcheddol - Tystiolaeth gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**

# Sefydlu corff amgylcheddol

## Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd

26ain Ionawr 2012



WLGA • CLlLC

# CYFLWYNIAD

1. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) yn cynrychioli 22 awdurdod lleol y wlad ac mae awdurdodau'r tri pharc cenedlaethol, y tri gwasanaeth tân ac achub a'r pedwar heddlu'n aelodau cyswllt.

2. Ei diben yw cynrychioli'r awdurdodau lleol yn ôl fframwaith polisïau sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau ei haelodau. At hynny, mae'n cynnig amrywiaeth eang o wasanaethau sy'n ychwanegu at fyd llywodraeth leol a'r cymunedau mae'n eu gwasanaethu.

3. Gan fod y rhan fwyaf o'r papur hwn wedi'i lunio cyn i'r pwyllgor gau pen y mwdwl ar amodau ei orchwyl, efallai na fydd yn trafod pob mater sy'n berthnasol iddo.

## Prif faterion

4. Ar y cyfan, mae WLGA yn cefnogi'r syniad o sefydlu corff fyddai'n bennaf cyfrifol am faterion yr amgylchedd, yn amodol ar y canlynol:

   - Ddylai'r trefniadau pontio ddim arwain at ostwng lefel y gwasanaethau. Dyma wir bryder o ystyried faint o staff y bydd eu hangen ar gyfer pontio a'r perygl na fydd gwasanaethau rheng flaen yn ganolbwynt.
   - Dylai'r cyfuno arwain at rolau a chyfrifoldebau eglurach rhwng y corff newydd a budd-ddalwyr eraill, ac fe ddylai fod atebolrwydd a chyfathrebu eglurach – yn arbennig wrth drin a thrafod argyfyngau. Ynglŷn â rhai materion, mae gan yr awdurdodau lleol rolau rheoleiddio tebyg ac mae trefniadau anghyson yn peri anawsterau iddyn nhw yn barod (e.e. tomenni anghyfreithlon a chaniatáu). Fe fydd yn bwysig gadael i'r awdurdodau lleol gyfrannu i'r ffrydiau gwaith a gofalu bod memoranda dealltwriaeth eglur yn cael eu llunio rhyngddyn nhw a'r corff newydd.
   - Mae perygl y bydd cymhlethdod y cyfuno, yr un pryd a'r adolygiad pwysig o'r gyfraith yn y maes hwn a gwaith llunio fframwaith Cymru Fyw, yn amharu ar y broses.
   - Rhaid creu corff amgylcheddol na fydd yn cuddio'r angen i fynd i'r afael â rhai materion cymdeithasol ac economaidd ehangach – yn arbennig cwtogi ar faich y fframwaith rheoleiddio a'r berthynas â phrosesau allweddol eraill megis cynllunio.
   - O greu bwrdd cysgodol, rhaid hwyluso cefnogaeth ac atebolrwydd ehangach ymhlith y budd-ddalwyr. Mae cynghorwyr ar gael i'w cymunedau a byddan nhw

dan bwysau o hyd ynglŷn â gwasanaethau lleol. Beth fydd trefn llywodraethu'r corff newydd? Pwy fydd aelodau ei fwrdd ac i bwy y byddan nhw'n atebol? Pa berthynas, os o gwbl, fydd rhyngddo a'r cymunedau mae'n eu gwasanaethu ledled y wlad? Fydd budd-ddalwyr yn cael eu cynrychioli ar y bwrdd?

- Ddylai'r broses ddim tanseilio unrhyw fentrau eraill megis Adolygiad Simpson a chydweithio mewn unrhyw ffordd. Y perygl yn hyn o beth yw na fydd modd datblygu gwasanaethau newydd yn ystod y cyfuno.
- Mae'r awdurdodau'n ymwneud eisoes ag amryw broblemau ynglŷn â ffiniau, megis gwahanol ranbarthau Asiantaeth yr Amgylchedd. Er enghraifft, mae Cyngor Sir Ceredigion yn ymwneud â dau o ranbarthau'r asiantaeth ac mae ganddo berthynas ar wahân â Chomisiwn y Goedwigaeth a Chyngor Cefn Gwlad Cymru. Fydd y corff newydd yn datrys y problemau *cyfredol* hynny?
- Dyma adeg ddelfrydol i edrych ar faterion megis y modd mae gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo'n electronig rhwng cyrff. Rhaid ystyried materion TGCH a chyfathrebu yn rhan o'r broses, yn arbennig yng ngoleuni'r camau i symleiddio trefn y cynllunio (sy'n debygol o gael eu hamlinellu yn y mesur am gynllunio).
- Beth fydd yn digwydd i'r arbenigedd sy'n dod o Loegr ar hyn o bryd? Bu rhaid gofyn i arbenigwyr o Loegr gyflawni gwaith ynglŷn â chaniatáu claddu sbwriel yn ddiweddar, er enghraifft. Fydd oedi o ganlyniad i'r angen i gael gafael ar gymorth o'r fath?

**Rôl WLGA**

5. Bu WLGA yn ymwneud â'r trafodaethau am y corff newydd mewn amryw ffyrdd:
   - Yn rhan o broses ymgynghori Cymru Fyw.
   - Yn aelod o amryw is-gylchoedd ffrydiau gwaith Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol megis y rhai dros gyfathrebu/ymgysylltu a rheoleiddio.
   - Yn rhan o'r ymgynghori wrth lunio'r ddadl o blaid corff amgylcheddol, gan hwyluso trafodaethau perthnasol gyda Fforwm y Cyfarwyddwyr Amgylcheddol Strategol.
   - Mewn cyfweliad yn ystod proses adolygu fewnol y cymheiriaid.
   - Trwy siarad yn rheolaidd â swyddogion Llywodraeth Cymru a budd-ddalwyr eraill am faterion perthnasol, megis cyfarfod y cynghorwyr dros gynllunio â'r Gweinidog.
   - Yn olaf, trwy gymryd rhan yn ddiweddar yng nghylch cyfeirio'r fframwaith a'r corff amgylcheddol a ystyriodd y ddadl amlinellol o blaid sefydlu corff newydd yn ystod ei gyfarfod ar 23ain Tachwedd.

## Cyd-destun

6. Gan fod cyd-destun proses Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol a Chymru Fyw yn datblygu'n gyflym a bu eisiau ystyried y ddadl dros sefydlu corff amgylcheddol yr un pryd, fe fu'n anodd cadw'r ddwy broses ar wahân a dod i farn bendant am y cynllun busnes sy'n dod i'r amlwg. Yn yr un modd, mae cyd-destun cyfnewidiol Adolygiad Simpson a materion rhanbarthol/gwladol ym myd llywodraeth leol wedi effeithio'n fawr ar ein syniadau o ran sut bydd y corff newydd yn ymwneud â'r awdurdodau lleol.

7. Yn ystod y broses, rydyn ni wedi canolbwyntio ar ddau gwestiwn allweddol: Ydyn ni o'r farn y bydd gwelliannau go iawn mae modd eu cyfiawnhau yn y gwasanaethau? Fydd hyder y cyhoedd a'r budd-ddalwyr ehangach yn cael ei gynnal a'i wella? Yn amlwg, bu angen sicrhad o safbwynt technegol y byddai gwahanol rolau'r sefydliadau dan sylw'n parhau i gael eu cyflawni'n briodol yn ôl y fframwaith cyfreithiol angenrheidiol, hefyd.

8. Ar hyd y broses, mae rhai wedi codi amheuon am yr amseru. Mae hynny wedi dod i'r amlwg mewn dwy ffordd. Gan fod angen ehangach i gwtogi ar wariant gwladol, bu peth anfodlonrwydd mewn rhai sectorau mai cwtogi ar wariant oedd prif sbardun y broses. Ein barn ni yw bod effeithlonrwydd yn ddeilliant perthnasol bob amser ond nid prif sbardun y broses hon mo hynny. Yr ail bryder oedd y byddai angen gorffen proses Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol/Cymru Fyw cyn dechrau trafod sut mae eu rhoi ar waith. Er ein bod yn cydnabod hynny i ryw raddau, rydyn ni o'r farn y bydd yn bosibl cynnal y ddwy broses yr un pryd fel y gallan nhw gydblethu.

## Ehangder

9. Mae'n amlwg bod y ddadl o blaid corff amgylcheddol yn un strategol ei natur ar hyn o bryd. Mae llawer o'r materion sydd o ddiddordeb i fyd llywodraeth leol yn ymwneud â rhoi'r syniad ar waith a'r modd y bydd y corff newydd yn cydweithio â'r awdurdodau lleol a budd-ddalwyr eraill. Dros y blynyddoedd, mae WLGA wedi meithrin perthynas dda â'r tri chorff i gyd ynglŷn ag amryw faterion. Yn lleol mae'r berthynas honno'n hanfodol i'r cynllunio strategol a'r gwasanaethau, fodd bynnag. Ein barn ni yw bod y berthynas wedi aeddfedu a chryfhau dros amser ac, er bod anawsterau o hyd, mae'r darlun yn un cadarnhaol ar y cyfan. Un o'n prif bryderon yw y gallai'r cynnwrf a ddaw yn sgîl y newidiadau amharu ar y berthynas leol os nad yw'n cael ei reoli'n effeithiol, yn arbennig os yw'r corff newydd yn canolbwyntio'n ormodol ar faterion mewnol yn y cyfamser. Bydd y modd mae'r corff newydd yn gweithredu'n rhanbarthol yn hanfodol i'r berthynas yn y dyfodol.

10. O ran ehangder y ddadl hefyd, mae amryw faterion wedi'u codi am y costau sydd wedi'u pennu, statws TAW, pensiynau, trefniadau pontio ac ati. Allwn ni ddim rhoi sylwadau am y materion hynny gan eu bod tu allan i'n gallu.

**Tryloywder ac atebolrwydd**

11. Diau y bydd corff cwbl ddatganoledig ac iddo brosesau penderfynu a llywodraethu tryloyw yn gaffaeliad, yn arbennig gan y bydd y Cynulliad yn cael dwyn y Gweinidog i gyfrif am yr hyn sydd wedi'i gyflawni yn y wlad hon. Ar y llaw arall, rhaid deall faint o arbenigedd, gallu ac adnoddau y bydd eu hangen i gyflawni swyddogaethau'r tri chorff presennol ac a fydd unrhyw ddiffygion yn sgîl colli arbenigedd y DG. Bydd rhaid rheoli hynny'n ofalus trwy gysylltiadau ledled y deyrnas ac, yn wir, gallai ddod yn eglurach o ran pa wasanaethau sy'n cael eu defnyddio a faint maen nhw'n costio. Ein barn ni yw bod modd cael gwerth ein harian trwy feithrin yng Nghymru fedrau gwerthfawr fydd o les i'r economi i gyd. Rhaid ystyried cyfleoedd i gydweithio yn y sector cyhoeddus ac edrych ar rôl cwmnïau preifat.

12. Gallai fod rôl i bwyllgorau trosolwg a chraffu'r awdurdodau lleol hefyd ynglŷn â'r cyrff penodol mae modd gofyn iddyn nhw gyflwyno tystiolaeth i'r pwyllgorau. Mae'n eglur y byddai hynny'n cryfhau atebolrwydd lleol am benderfyniadau a gweithgareddau.

**Gweithredu**

13. Mae'r tri chorff cyfredol yn cynnig gwasanaethau i fyd llywodraeth leol, yn cyflawni rhai gorchwylion ar y cyd â ni ac yn rheoleiddio peth o'n gwaith. Mae'n anodd trafod holl gymhlethdod y berthynas honno a natur yr amryw rolau yn y papur hwn ond, yn gyffredinol, mae'r berthynas yn cael ei gwerthfawrogi'n wladol ac yn lleol. Yn aml, y modd mae byd llywodraeth leol yn ymwneud â chyrff eraill bob dydd sy'n dangos sut rydyn ni'n dibynnu ar ein gilydd.

14. Mae'n amlwg y byddai effaith niweidiol ar wasanaethau lleol, y sector cyhoeddus a'r cyrff rheoleiddio pe bai'r gwasanaethau amgylcheddol yn llai, yn anos eu defnyddio neu'n arafach. Er bod rhaid inni gadw golwg ar hynny, mae'r ddadl amlinellol heb roi digon o fanylion inni benderfynu a oes perygl neu beidio yn hyn o beth. Dyma fater y byddwn ni'n parhau i'w adolygu yn ystod y broses. Rydyn ni o'r farn bod dyddiad y sefydlu, 1$^{af}$ Ebrill 2013, yn briodol yng ngoleuni'r ystyriaethau ymarferol, effeithiau niweidiol unrhyw oedi ar staff a budd-ddalwyr a'r angen i ganolbwyntio ar gynnig gwir wasanaethau.

15. Bu pryder i Adolygiad Simpson ym myd llywodraeth leol fethu â nodi'r posibiliadau i gyd o ran diwygio'r sector cyhoeddus ehangach wrth ddadansoddi pa wasanaethau ddylai gael eu cynnig trwy drefniadau lleol, rhanbarthol neu wladol. Er y bu rhai trafodaethau am rolau byd llywodraeth leol a'r corff amgylcheddol newydd, ac y gallai rhai swyddogaethau symud o'r naill ochr i'r llall, rydyn ni o'r farn nad yw hynny wedi cael digon o sylw nac ystyriaeth fanwl. Yr anhawster eto yw cymhlethdod newid un rhan o'r sector cyhoeddus tra bo rhan arall yn newid. Serch hynny, dyma faes y bydd angen ei ddatblygu yn y dyfodol, yn arbennig atebolrwydd democrataidd isel rhai cyrff a'r angen i sefydliadau gyfuno arbenigedd a medrau (er gwaethaf cynnwys paragraff 2.8.2 pumed fersiwn y trosolwg strategol).

16. Mater allweddol arall yw ble bydd swyddfa'r corff newydd a beth fyddai effaith unrhyw symud ar yr economi. Ddylai unrhyw broses symleiddio asedion ddim arwain at eu canoli. Mae'r presenoldeb sylweddol yn y gogledd a'r canolbarth ar hyn o bryd yn un cadarnhaol ac effeithiol fel ei gilydd.

17. Hoffai WLGA eglurhad am gynnwys paragraff 2.5 pumed fersiwn y ddadl amlinellol (pwerau cyfreithiol), fodd bynnag, ynglŷn â gofynion Mesur 'Cyrff Cyhoeddus'. Mae'r pedwerydd pwynt bwled yn dweud fel a ganlyn:

    ‘Trosglwyddo unrhyw swyddogaeth sydd wedi'i datganoli i Gymru ynglŷn â'r amgylchedd oddi wrth y sawl sy'n ei chyflawni i naill ai (a) corff newydd; (b) Cyngor Cefn Gwlad Cymru; (c) Asiantaeth yr Amgylchedd neu Gomisiwn y Goedwigaeth’.

    Dyw'r rhesymau dros ofyn am y grym hwnnw ddim yn eglur, na modd ei ddefnyddio yn y dyfodol.

18. Mae'n debygol y bydd y Papur Gwyrdd am yr Amgylchedd yn codi materion ynglŷn â sut mae canllawiau a rheoleiddio ym meysydd cynllunio a'r amgylchedd yn ymwneud â'i gilydd. Yn wir, mae'r pwyllgor hwn wedi ystyried materion o'r fath yn rhan o'i ymchwiliad parhaus i gynllunio ac ynni. Er ein bod yn derbyn bod angen gwelliannau yn hyn o beth ac y gallai fod ffyrdd mwy effeithlon ac esmwyth o gyflawni gorchwylion cynllunio a chaniatáu, rhaid ystyried hyn yn ofalus i wneud yn siwr bod canlyniadau unrhyw newidiadau wedi'u deall yn llawn. Mae perygl y gallai newidiadau a ddaw yn sgîl Mesur 'Cynllunio', materion cydweithio, y corff amgylcheddol newydd a'r ffordd o drin a thrafod ecosustemau arwain at ganlyniadau nad oes neb wedi'u rhagweld.

**Rhesymau dros newid**

19. Mae'n amlwg bod rhaid i Gymru newid ei ffordd o reoli adnoddau naturiol. Methon ni â chyflawni targedau bioamrywiaeth yn 2010, a dim ond un enghraifft o ddiffygion trefn nad yw'n cydnabod ein bod yn dibynnu'n llwyr ar ecosustemau oedd hynny. Y newid hinsoddol a gorddefnyddio adnoddau yw dwy enghraifft arall. Mewn sawl ffordd, mae'r amryw ddeddfau a rheoliadau amgylcheddol yn methu â diogelu'r amgylchedd ac yn codi amheuon am weithgareddau diogelu trwy fod yn faen tramgwydd ynglŷn â'r datblygu priodol a chynaladwy mae'i angen ar ein cymunedau er eu ffyniant.

20. Yn hynny o beth, mae'r ddadl o blaid sefydlu corff amgylcheddol wedi'i chysylltu'n agos â'r ffordd newydd o drin a thrafod ecosustemau ddylai fod yn fwy cymesur ac effeithiol ar gyfer penderfynu am ddatblygu cynaladwy. Mae'r fframwaith newydd yn hwyluso'n rhagweithredol yn hytrach na rheoleiddio, gan ganolbwyntio ar ddatblygu amhriodol, ac mae hynny'n gam cadarnhaol ac angenrheidiol, yn arbennig o ran cynnal yr economi.

21. Mae'r meini prawf a'r lleddfu sydd ar dudalen 9 (crynodeb o'r gwaith) y cynllun busnes yn cynnig, ar bob golwg, asesiad cytbwys o'r prif faterion ynglŷn â sefydlu corff dros yr amgylchedd. Y cwestiwn pwysicaf yw a oes eisiau corff newydd i hwyluso'r buddion ychwanegol hynny?

22. Mae'r cynnig yn asesu'r ddadl yn ôl pum agwedd – strategol, economaidd, masnachol, ariannol a rheoli (rhan 2.2 yn y ddadl strategol).

23. Mae'r ddadl <u>strategol</u>, sy'n dweud bod fframwaith rheoleiddio tameidiog yn tanseilio ein ffordd o reoli'r amgylchedd ac yn ein rhwystro rhag ei reoli mewn modd cynaladwy a chyfun yn ôl ecosustemau, wedi'i llunio'n dda. Er y gallai corff amgylcheddol newydd fod yn geinach o ran hwyluso'r cyfuno a datblygu fframwaith rheoleiddio gwell, fodd bynnag, mae'n aneglur yn y ddadl pam na ddylen ni ofalu bod y cyrff presennol yn gweithio'n fwy effeithiol yn hynny o beth.

24. Mae'r ddadl <u>economaidd</u> yn sôn am gwtogi ar fiwrocratiaeth, ond rhaid cofio na fydd modd newid llawer o'r prosesau cyfredol, megis cyfarwyddebau Undeb Ewrop. Bydd rolau a chyfrifoldebau eglurach yn galluogi byd busnes i gael gafael ar y cymorth mae'i eisiau arno, fodd bynnag, a bydd hynny o fantais fawr. Does gan WLGA farn bendant am dybiaethau'r ddadl ynglŷn â chostau ac arbedion.

25. Bu trafodaeth gyhoeddus briodol am weithgarwch masnachol, yn arbennig Comisiwn y Goedwigaeth, a sut gallai'r corff newydd effeithio arno. Mae'n ymddangos nad yw'r dadansoddiad sydd yn y ddadl yn mynd i'r afael â hynny am ei fod yn canolbwyntio ar faterion mewnol. Dyma gwestiwn pwysig o hyd. Sut byddai corff newydd yn gweithio ac a fyddai'n amharu ar y gweithgarwch hwnnw? Mae'n glir na ddylai hynny ddigwydd er mwyn i'r corff newydd gael ei ystyried yn llwyddiant ond, at hynny, rhaid derbyn y gallai fod angen i elfen goedwigaeth y corff newydd fynd ati i gyflawni prif amcanion Llywodraeth Cymru ar draul rhai masnachol ar adegau.

26. Eto, does gyda ni farn bendant am y ddadl ariannol er y buasai'n rhagweledol cynnwys barn am effeithiau ar y sector sy'n cael ei reoleiddio, a budd-ddalwyr eraill, a'r buddion economaidd ehangach allai ddeillio. Er bod y maes hwnnw yn un anodd gan fod angen darogan yn ddewr, mae'n amlwg y dylai fod yn un o sbardunau'r broses.

27. Pe bai budd-ddalwyr cyhoeddus a phreifat eraill yn mynd i gostau ychwanegol yn sgîl y newidiadau, gallai cyfanswm y buddion fod yn llai neu hyd yn oed yn diflannu. Does dim fframwaith ar gyfer ystyried hynny yn y ddadl.

**Casgliad**

28. Er bod llawer i'w drafod o hyd ynglŷn â'r corff amgylcheddol newydd, nid lleiaf yng nghyd-destun Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol/Cymru Fyw, ein barn ni yw y dylech chi fwrw ymlaen â'r cyfuno ar yr amod bod y tybiaethau sydd yn y ddadl yn gadarn.

---

**Mae rhagor o wybodaeth gan:**

Craig Mitchell, *Swyddog Polisïau*
**Materion yr Amgylchedd, Ynni, Newid Hinsoddol, Bioamrywiaeth, Cynllunio, Dŵr a Llifogydd a'r Môr**
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Tŷ Llywodraeth Leol
Rhodfa Drake
Caerdydd, CF10 4LG
Ffôn: 029 2046 8625 Ffacs: 029 2046 8601 Ebost: craig.mitchell@wlga.gov.uk

PARCIAU CENEDLAETHOL CYMRU
Lle i enaid gael llonydd




NATIONAL PARKS WALES
Britain's breathing spaces

**Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd**
**E&S(4)-05-12 papur 5**
**Ymchwiliad i'r achos busnes dros un corff amgylcheddol – Tystiolaeth gan Barciau Cenedlaethol Cymru**

# Ymateb i Achos Busnes Llywodraeth Cymru dros yr Un Corff Amgylcheddol

Ionawr 2012




Parciau Cenedlaethol Cymru
National Parks Wales

126 Stryd Bute / 126 Bute Street
Caerdydd / Cardiff, CF10 5LE

Ffôn / Tel 029 2049 9966
Ffacs / Fax 029 2049 9580
Ebost / Email nationalparkswales@anpa.gov.uk

Parciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Arfordir Penfro ac Eryri yn gweithio mewn partneriaeth
Brecon Beacons, Pembrokeshire Coast, and Snowdonia National Parks. Working in Partnership.

# 1. CYD- DESTUN

1.1 Ar 21 Rhagfyr 2011 gwahoddodd Dirprwy Glerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru dros Bwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd dri Awdurdod y Parc i ddarparu papur tystiolaeth ac i anfon cynrychiolwyr o'r Parciau i gyfranogi mewn panel trafodaeth gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC / WLGA) fel rhan o ymchwiliad byr i archwilio'r Achos Busnes dros Un Corff Amgylcheddol (UCA).

1.2 Cawsom ein cynghori nad oedd y cylch gorchwyl ar gyfer ymchwiliad y Pwyllgor wedi cael ei gytuno arno eto. Cafodd y papur hwn ei baratoi ar ran Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Arfordir Penfro ac Eryri a hynny yn absenoldeb y cylch gorchwyl.

1.3 Mae Parciau Cenedlaethol Cymru (PCC) yn cynrychioli cyd gynulliad o Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol (APCau) mewn partneriaeth er mwyn rhannu arferion da, cyflawni arbedion effeithlonrwydd a hyrwyddo rôl y Parciau Cenedlaethol (PC) wrth gyflawni amgylchedd fyw a chynaliadwy.

# 2. CRYNODEB O'R PAPUR

2.1 Mae Parciau Cenedlaethol Cymru (PCC) yn croesawu'r datganiad gan y Gweinidog i sefydlu Un Corff Amgylcheddol (UCA) dros Gymru.

2.2 Nid yw Parciau Cenedlaethol Cymru (PCC) yn cwestiynu'r fethodoleg a chasgliadau'r achos busnes strategol.

2.3 Mae Parciau Cenedlaethol Cymru (PCC) yn cefnogi'r dymuniad o gael "...a new, integrated approach to managing the natural environment, joining up existing organisational strategies..." ar dudalen 7. Dylai sefydlu Un Corff Amgylcheddol (UCA) ganiatáu i Lywodraeth Cymru (LlC) osod ffocws cliriach ar gyfer y maes cyfrifoldeb hwn sy'n eiddo iddo.

2.4 Yn ddelfrydol dylai'r Un Corff Amgylcheddol (UCA) fod wedi cael ei sefydlu mewn ymateb i Fframwaith Amgylcheddol Naturiol (FfAN) wedi ei lawn ddatblygu a'r argraff sy'n bodoli yw bod yr Un Corff Amgylcheddol (UCA) wedi cael ei ddatblygu cyn bod dealltwriaeth o beth y disgwylir i'r Fframwaith Amgylcheddol Naturiol (FfAN) ei gyflawni yn nhermau allbynnau mesuradwy.

2.5 Byddai'r Achos Busnes yn elwa o gael enghreifftiau ymarferol i gefnogi datganiadau fel bod "lack of coherence in environmental planning at both strategic and local level" yn arwain at "detrimental impact (on) the delivery of Welsh Government policy and environmental improvements (as well as) impact on major economic development opportunities" ar dudalen 9.

2.6 Mae sut y sefydlir yr Un Corff Amgylcheddol (UCA), ei werthoedd craidd a'r mecanweithiau cyflawni o bwys gwirioneddol i Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol (APCau). Rydym o ddifrif yn gobeithio yr ymgynghorir yn weithredol â'r partneriaid perthnasol ar sut y bydd yr Un Corff Amgylcheddol (UCA) yn cael ei strwythuro yn weithredol. Oni bai fod hyn yn cael ei wneud yn iawn mae yna berygl fod gwaith di-graidd yr awdurdodau cyfansoddol, sy'n arwyddocaol i waith Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol (APCau) fel mynediad a threftadaeth ddiwylliannol, yn cael eu hisraddio trwy fod yn rhan o gorff llawer mwy.

2.7 Mae Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol (APCau) yn ystyried bod ganddynt rôl bwysig i'w chwarae i sicrhau bod yr Un Corff Amgylcheddol (UCA) yn gallu cyflawni'r mentrau polisi integredig. Ar y lefel leol mae Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol (APCau) yn gallu ac yn hwyluso ymglymiad effeithiol gyda chymunedau lleol, rheolwyr tir lleol a defnyddwyr tir.

## 3. YMGLYMIAD PARCIAU CENEDLAETHOL CYMRU (PCC) YN YR ACHOS BUSNES A'R FFRAMWAITH AMGYLCHEDDOL NATURIOL (FfAN)

3.1 Mae Parciau Cenedlaethol Cymru wedi bod yn chwarae rhan yn uniongyrchol mewn trafodaethau ar y Fframwaith Amgylcheddol Naturiol (FfAN) a'r Un Corff Amgylcheddol (UCA) fel a ganlyn:

- Fel rhai yr ymgynghorir â hwy ar Cymru Fyw: Y Fframwaith Amgylcheddol Naturiol (FfAN).
- Trwy ymglymiad yn y grŵp cyfeirio ar y Fframwaith Amgylcheddol Naturiol (FfAN) / Un Corff Amgylcheddol (UCA)
- Trwy gyfrwng trafodaethau rheolaidd â Swyddogion Llywodraeth Cymru a budd ddeiliaid eraill, gan gynnwys Seminar Aelodau Parciau Cenedlaethol Cymru ym mis Hydref a gafodd ei lywyddu gan Awdurdod Parc Cenedlaethol (APC) Bannau Brycheiniog a oedd yn canolbwyntio ar fioamrywiaeth a gwasanaethau ecosystemau o fewn Parciau Cenedlaethol Cymru.

Mae Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol hefyd wedi cael ymglymiad anuniongyrchol yn y trafodaethau ar yr Un Corff Amgylcheddol (UCA) trwy gyfrwng eu haelodaeth gysylltiedig â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC).

## 4. METHODOLEG

4.1 Nid yw Parciau Cenedlaethol Cymru (PCC) yn cwestiynu'r fethodoleg, gan gynnwys y meini prawf cymhwysol, y matrics sgorio, graddio opsiynau ac yn y blaen.

4.2 Cyn belled ag y mae risgiau dan sylw mae'r Achos Busnes yn cyfeirio at "continuity of parent body" ar dudalen 12 ond nid ydym yn credu yr eir i'r afael â hyn yn ddigonol. Bydd sefydlu corff newydd yn cael effaith tymor byr ar ei bartneriaid. Mae sefydlu corff newydd yn ddiau yn golygu mai'r canlyniadau fydd peri aflonyddwch a gostyngiad yn yr ymdrech gynhyrchiol. Fodd bynnag, mae Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol (APC) yn disgwyl y bydd y cyfnod trawsgyweirio yn cael ei reoli yn effeithiol er mwyn lliniaru a lleihau unrhyw aflonyddwch i'w bartneriaid.

4.3 Rydym yn croesawu'r cyfeiriad ar dudalen 20 at bwysigrwydd "the maintenance and development of effective partnerships ... including those relating to planning decisions...""

4.4 Mae'r achos busnes hefyd yn ymdrin â materion masnachol ac ariannol (adrannau 4 a 5) megis darpariaethau pensiwn, asedau a rhwymedigaethau, trefniadau trosiannol ac ati sydd y tu allan i'n gallu i gyflwyno sylwadau arnynt.

## 5. YR ACHOS AM NEWID

5.1 Nid yw Parciau Cenedlaethol Cymru yn cwestiynu'r egwyddor o sefydlu Un Corff Amgylcheddol. Dylid croesawu'r ffaith bod hwn yn gyfle i symleiddio ac integreiddio'r cyflenwad gwasanaethau.

5.2 Mae'r sail resymegol a'r meini prawf ar gyfer yr adolygiad wedi'u nodi'n glir ac yn gynhwysfawr yn yr achos busnes.

5.3 Nid yw Parciau Cenedlaethol Cymru mewn sefyllfa i gwestiynu'r achos economaidd a'r meini prawf rancio a fabwysiadwyd.

5.4 Rhaid canmol nodau'r Un Corff Amgylcheddol fel y maent ar hyn o bryd.

5.5 Rydym yn cefnogi'r farn y bydd "The change will give Wales first hand representation over the full breadth of the SEBs remit and therefore more influence" ar dudalen 31.

5.6 Nid ydym yn cwestiynu'r honiad y bydd yr Un Corff Amgylcheddol yn "enable better delivery of Welsh Ministers' priorities and Wales' needs..." ar dudalen 30. Byddai rhai enghreifftiau ymarferol i gefnogi hyn yn ddefnyddiol.

5.7 Mae'r Achos Busnes yn datgan y bydd "Combining bodies reduces duplication or triplication of activity..." ar dudalen 30. Byddai'n ddefnyddiol petai yna ddiffiniad cliriach yn yr achos busnes o'r achosion o ddyblygu ar y rheng flaen o ran gweithgarwch rheoliadol ac anrheoliadol y tri sefydliad cyfansoddol. Mae'n amlwg bod arbedion effeithlonrwydd cefn swyddfa yn bosibl trwy integreiddio, ac mae graddau'r arbedion hynny wedi'u nodi yn yr achos busnes.

5.8 Rydym yn cefnogi'r farn bod rhaid i Gymru newid y ffordd y mae'n rheoli ei hadnoddau naturiol. Mae colli bioamrywiaeth, newid yn yr hinsawdd a defnydd gwastraffus o adnoddau yn niweidio ein gwasanaethau ecosystemau ac yn peryglu ein cyd-ddibyniaeth arnynt.

5.9 Mae'r achos strategol yn haeru bod y fframwaith rheoleiddio yn rhy dameidiog, ac yn tanseilio ymdrechion i ddiogelu'r amgylchedd ac ymdrechion i reoli a harneisio adnoddau mewn ffordd gynaliadwy at ddibenion datblygu cynaliadwy. Er bod y fframwaith rheoleiddio amgylcheddol yn dameidiog, gellir sicrhau ei fod yn gweithio trwy ddull o weithredu integredig a chynaliadwy sy'n seiliedig ar ecosystemau, tebyg i'r hyn sydd i'w ganfod yng Nghynlluniau Rheoli'r Parciau Cenedlaethol. Mae cynigion Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol / Un Corff Amgylcheddol ar raddfa gymaint yn fwy, ac eto mae iddynt nodweddion cyffelyb, maent yn galluogi mynd ati i integreiddio a datblygu fframwaith rheoleiddio sy'n fwy "cydgysylltiedig" ac yn cael ei reoli gan unig sefydliad. Yng nghyd-destun y Parciau Cenedlaethol, gwelwn fod Cynllun Rheoli'r Parciau Cenedlaethol yn cynrychioli math o ddull o weithredu sy'n seiliedig ar wasanaethau ecosystemau sy'n gweithio. Rydym yn credu y gellir defnyddio ein profiad â Chynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol yn rhywle arall.

5.10 Yr hyn sy'n parhau i fod yn aneglur yw pa ganlyniadau ymarferol a mesuradwy y gallwn eu disgwyl gan yr Un Corff Amgylcheddol a

fydd yn arwain at ganlyniadau gwell ar gyfer yr amgylchedd a'i ddinasyddion.

## 6. Y DYFODOL

6.1 Bydd yr Un Corff Amgylcheddol yn newid y ffordd y mae'r cyrff presennol yn cydgysylltu ag Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol, a'r ffordd y mae rhai swyddogaethau rheoleiddio'n cael eu gweinyddu. Dyma gyfle i'r Un Corff Amgylcheddol ystyried a all rhai o'i swyddogaethau gael eu cyflawni'n well ar lefel leol gan ei bartneriaid, gan gynnwys Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol.

6.2 Ni fydd newid cyfundrefnol yn unig yn sicrhau y gellir rhwystro colli bioamrywiaeth, ac mae'r Achos Busnes yn cydnabod bod materion ehangach yn y fantol yma. Mae hyn yn rhywbeth i'w groesawu. Er mai'r grym y tu ôl i Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol oedd colli bioamrywiaeth, talwyd sylw yn yr Achos Busnes i atgyfnerthu'r fframwaith rheoleiddio sy'n diogelu ein gwasanaethau ecosystemau. Mae'n bwysig nad yw'r Un Corff Amgylcheddol yn colli golwg ar agweddau anrheoliadol eraill yn y dull o weithredu sy'n seiliedig ar wasanaethau ecosystemau, megis treftadaeth ddiwylliannol.

6.3 Mae gan Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol ddyletswydd statudol i baratoi Cynlluniau Rheoli'r Parciau Cenedlaethol, ac mae eu gweithrediad a'u bodolaeth yn enghreifftiau da o sut i gyflawni'r dull o weithredu sy'n seiliedig ar wasanaethau ecosystemau mewn ffordd ymarferol.

6.4 Mae cyrff cyfansoddol yr Un Corff Amgylcheddol yn bartneriaid cyflenwi allweddol, ac mae'n bwysig sicrhau nad yw'r cysylltiad lleol â chymunedau, rheolwyr tir a defnyddwyr yn cael ei golli na'i danseilio yn y trefniadau newydd.

---

**Am ragor o wybodaeth, yn y lle cyntaf cysylltwch â:**

**Greg Pycroft**
Swyddog Polisi, Parciau Cenedlaethol Cymru

ffôn. 02920499966
e-bost. nationalparkswales@anpa.gov.uk